OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 953 (Cy.84)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud - -	*20 Mawrth 2007*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 13(2) a (3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraffau 4(1) a (2) o Atodlen 2 iddi ac sy'n arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol o ran Cymru, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2007; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

Diwygio'r prif Reoliadau

2. Diwygir Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2003(**2**) ("y prif Reoliadau") yn unol â rheoliadau 3 i 15.

Diwygio'r prif Reoliadau

3. Yn rheoliad 2 (Dehongli)

(a) dileer y diffiniad o "aelodau cyntaf" ("*first members*");

(b) yn y diffiniad o "corff gwasanaeth iechyd" ("*health service body*") ar ôl "Ymddiriedolaeth GIG" mewnosoder y geiriau —
"", un o Ymddiriedolaethau Sefydledig y GIG";

(c) yn y diffiniad o "aelod awdurdod lleol" ("*local authority member*") yn lle "enwebu" rhodder—
"benodi";

(ch) yn y diffiniad o "aelod" ("*member*") dileer y canlynol —
", aelodau cyswllt ac aelodau cyfetholedig";

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2003/149 (Cy.19).

(d) yn y diffiniad o "aelod sy'n swyddog" ("*officer member*") yn lle "rheoliad 3(3)" rhodder y canlynol —

"rheoliad 3(2)";

(dd) yn y diffiniad o "aelod nad yw'n swyddog" ("*non-officer member*")

(i) yn lle "nad yw'n" dal unrhyw swydd"rhodder y canlynol —

"sy'n dod a fewn categori"; a

(ii) ar y diwedd mewnosoder—

"."; ac

(e) dileer y diffiniad o "aelod cysgodol" ("*shadow member*").

4.—(1) Diwygir rheoliad 3 (aelodaeth o Fyrddau Iechyd Lleol) o'r prif Reoliadau yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn lle rheoliad 3(1) rhodder y canlynol —

"**3.**—(1) Bydd aelodau'r Bwrdd fel a ganlyn—

(a) cadeirydd a benodwyd gan y Cynulliad;

(b) os yw'r Cynulliad o'r farn bod hynny'n briodol, is-gadeirydd a benodwyd gan y Cynulliad;

(c) aelodau sy'n swyddogion; ac

(ch) aelodau nad ydynt yn swyddogion.";

(3) Yn rheoliad 3(3)

(i) dileer paragraffau (a) a (b);

(ii) ym mharagraff (c) dileer "hyd at" ac yn lle "bedwar" rhodder "pedwar";

(iii) ym mharagraff (h) dileer "a";

(iv) ym mharagraff (i) dileer "." ac ychwaneger "; a"; a

(v) ar ôl paragraff (i) mewnosoder

"(j) aelodau cyfetholedig.".

(4) Dileer rheoliad 3(4).

5. Diwygir rheoliad 4 (Penodi Aelodau Byrddau Iechyd Lleol) o'r prif Reoliadau yn unol â'r rheoliad hwn.

(1) Dileer paragraff (1);

(2) Ym mharagraff (3)

(i) ar ôl "is-gadeirydd" dileer "a'r" a mewnosoder "a benodwyd o dan baragraff (2),";

(ii) ar ôl "aelodau cyfetholedig" mewnosoder "ac aelodau awdurdod lleol"; a

(iii) dileer "yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad".

(3) Ar ôl paragraff (3) mewnosoder y canlynol —

"(3A) Mae pob aelod awdurdod lleol i'w benodi gan yr awdurdod lleol ar gyfer ardal y Bwrdd.".

(4) Ym mharagraff (4) —

(a) yn lle "Penodir" rhodder y canlynol —

"Caniateir penodi"

(b) ar ôl "dro ynghylch penodiadau" mewnosoder

"ac Atodlen 1A".

(c) ym mharagraff (5) —

(i) yn lle "baragraff (3)" rhodder y canlynol —

"baragraffau (3) a (3A)"; a

(ii) yn lle "Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn" rhodder y canlynol —

"Atodlen 1 neu Atodlen 1A (lle y bônt yn gymwys)";

(ch) ar ôl paragraff (5), mewnosoder y canlynol —

"(5A) Rhaid i'r person neu'r personau sy'n gyfrifol am wneud unrhyw benodiad o dan baragraffau (3) a (3A) wneud pob ymdrech resymol i benodi aelodau i lenwi unrhyw sedd aelod o'r Bwrdd sy'n wag.".

6. Dileer rheoliad 5 (Trefniadau trosiannol ar gyfer penodi aelodau cyntaf Bwrdd Iechyd Lleol).

7. Yn rheoliad 6 (Gofynion i fod yn gymwys i fod yn aelod o Fwrdd Iechyd Lleol) —

(a) Dileer y canlynol —

"sy'n gwneud cais i fod yn aelod o Fwrdd"; a

(b) Ar ôl "gael ei benodi'n aelod" mewnosoder —

"a rhaid iddo barhau i gyflawni'r gofynion perthnasol tra bo'r person hwnnw'n dal swydd".

8. Ar ôl rheoliad 7 (Cyfnod penodiad aelodau cyfetholedig) mewnosoder y rheoliad a ganlyn —

"**Deiliadaeth swydd**

7A.—(1) Yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn, mae person yn dal swydd ac yn gadael swydd fel aelod Bwrdd yn unol â thelerau penodi'r person hwnnw.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliadau 7, 7B, 8 a 9, penodir person i ddal swydd fel aelod nad yw'n swyddog am nid mwy na phedair blynedd.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) caiff person, pan ddaw ei dymor mewn swydd i ben, fod yn gymwys i'w ailethol.

(4) Ni chaiff person ddal swydd fel aelod nad yw'n swyddog ar Fwrdd heb gymeradwyaeth y Cynulliad ymlaen llaw os yw'r person hwnnw wedi dal swydd ar y Bwrdd hwnnw am gyfnod sy'n gyfanswm o ddeng mlynedd neu fwy.

Deiliadaeth swydd — Trefniadau trosiannol

7B.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fydd person wedi'i benodi cyn 1 Ebrill 2007.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), pan fydd person wedi'i benodi i ddal swydd am dymor penodedig, gweddill y tymor hwnnw fydd tymor mewn swydd y person hwnnw ond ni fydd, o dan unrhyw amgylchiadau, yn hwy na phedair blynedd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2007.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 4, pan fydd person wedi'i benodi i ddal swydd ond na phennwyd tymor, bydd y person hwnnw'n dal swydd am ddim mwy na phedair blynedd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2007.

(4) Pan fydd aelod awdurdod lleol wedi'i benodi, caiff yr awdurdod lleol derfynu deiliadaeth swydd y person hwnnw drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r person hwnnw."